# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADNODDAU DYNOL, EFFEITHLONRWYDD A CHYDWEITHIO

## DYDD MERCHER, 6ED GORFFENNAF, 2016

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd L.M. Stephens [Aelod o'r Bwrdd Gweithredol]

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**

| | | |
|---|---|---|
| Mrs L. Evans | - | Swyddog Adnoddau Dynol (Strategaeth) |
| Mrs M. Evans Thomas | - | Pen-swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ystafell Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Neuadd y Sir, Caerfyrddin : 2.00 p.m. – 2.20 p.m**

### 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

### 2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 8FED O FEHEFIN, 2016

**PENDERFYNWYD llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 8fed Mehefin, 2016 yn gofnod cywir.**

### 3. POLISI SECONDIADAU DIWYGIEDIG

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried y fersiwn ddiwygiedig o'r Polisi Secondiadau. Eglurwyd bod y polisi wedi'i adolygu ddiwethaf yn 2008 a bod yr adolygiad diweddaraf wedi'i gynnal oherwydd bod angen sicrhau bod y polisi yn gyson â'r arferion da presennol.

Hefyd yr oedd nifer o faterion o bwys wedi dod i'r golwg yn ystod y misoedd diwethaf yr oedd angen rhoi sylw iddynt, gan gynnwys:-

- tanlinellu manteision secondiadau;
- materion ynghylch dileu swydd yn achos gweithwyr parhaol sy'n cynnig am gontractau cyfnod penodedig;
- sicrhau bod y polisi'n ymwneud â swyddi prosiectau;
- rheoli swyddi dros dro sy'n troi'n swyddi parhaol.

Yr oedd y polisi wedi'i newid er mwyn rhoi sylw priodol i'r materion hyn.

**PENDERFYNWYD, yn amodol ar gynnwys y newidiadau a nodwyd, gymeradwyo'r Polisi Secondiadau diwygiedig.**

____________________________ ____________________

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**